

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

### Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft

<b>Teitl:</b> Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft	<b>Rhif Cyfeirnod yr Asesiad</b> (i'w lenwi gan Uned y Gymraeg): 18/01/01			
<b>Dyddiad:</b>	<b>Adolygwyd ddiwethaf Mawrth 2018</b>			
<b>Manylion cyswllt:</b>	Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ			
<b>E-bost:</b>	CwnsleriaidDeddfwriaethol@cymru.gsi.gov.uk			
<b>Rhif ffôn:</b>	0300 025 0375			
<b>Math o Raglen/Prosiect</b>				
<input type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen			
<input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth				
<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad			
<input type="checkbox"/> Newid busnes				
<input type="checkbox"/> Seilwaith	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau			
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf				
<input type="checkbox"/> TGCh	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau			
<input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)				
<b>Costau: Beth a ragwelir fydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?</b>				
Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).				
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1m	Dros £1m
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
<b>O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?</b>				
Mae costau (a wariwyd) sy'n gysylltiedig â'r gwaith drafftio dwyieithog sy'n ofynnol ar gyfer datblygu'r Bil Drafft.				
Mae rhai costau trosglwyddo cychwynnol (mân) sy'n gysylltiedig â hysbysu'r farnwriaeth, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol a phartïon eraill sydd â buddiant am y ddeddfwriaeth newydd, a'i pherthynas â'r Ddeddf Dehongli 1978 bresennol. Fodd bynnag, mae'r cyfryw gostau yn codi yng nghwrs busnes arferol gan fod y farnwriaeth				

a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol yn debygol o fod wedi cael hyfforddiant achlysurol eisoes ar ddehongli deddfwriaeth Cymru. I gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil Drafft yn effeithiol, os caiff ei ddeddfu, bydd Llywodraeth Cymru yn paratoi ac yn cyhoeddi (ar-lein yn unig) ddeunydd esboniadol ynglŷn â'r Bil a chanllawiau a baratoir at ddefnydd mewnol yn unig (yn bennaf gan y cwnsleriaid deddfwriaethol a'r cyfreithwyr sy'n drafftio deddfwriaeth). O ganlyniad, bydd costau (cyn lleied â phosibl) yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg yn y cyd-destun hwnnw a fyddai'n cael eu hymgorffori yng nghwrs busnes arferol.

Gan ystyried y gost oes gyfan a ragwelir, mae'r Bil Drafft yn cynnig dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol i adolygu cyfraith Cymru, a dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i baratoi rhaglen yn egluro sut y maent yn bwriadu gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Rhaid i'r rhaglen honno gynnwys darpariaeth ynglŷn â chydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd rhaid paratoi'r rhaglen yn ddwyieithog ac, felly, bydd costau mewnol yn gysylltiedig felly â chynhyrchu'r rhaglen.

O ran prosiectau sy'n rhan o'r rhaglen, bydd costau cyfieithu hefyd ynghlwm wrth gydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth. Bydd hyn hefyd yn wir am weithgareddau eraill y gall Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ymgymryd â hwy.

Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth yn union fydd cost hyn oherwydd bydd y gwaith yn cael ei wneud dros gyfnod hir o amser a bydd y gost wirioneddol yn dibynnu ar y rhaglen a ddatblygir ar unrhyw un amser.

Nid oes unrhyw gostau tybiedig (sy'n uwch na'r costau trosglwyddo a nodwyd uchod) mewn perthynas ag elfen y Bil Drafft sy'n ymwneud â darparu dehongliad statudol o gyfraith Cymru.

#### Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Mwy na 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

#### Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

- Haf 2017 Ymgynghoriad polisi – *Dehongli Deddfwriaeth Cymru: ystyried Deddf ddehongli i Gymru*
- Rhagfyr 2017 Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- Mawrth i Fehefin 2018 Ymgynghori ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft
- Hydref 2018 Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- Bydd dyddiadau eraill yn ddibynnol ar benderfyniadau a wneir yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft.

#### CAM 1: CYNLLUNIO

## Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fil Drafft sy'n rhan o raglen ehangach y Cwnsler Cyffredinol ar gyfer gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Nod y rhaglen hon yw:

- datblygu corff dwyieithog o gyfraith Cymru wedi'i resymoli, a hynny'n bennaf drwy **gydgrynhoi** deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes;
- **codeiddio'r** gyfraith, wedi iddi gael ei chydgrynhoi, fel bod yr holl gyfraith ar bwnc penodol yn drefnus a'u bod ar gael gyda'i gilydd mewn un neu fwy o "brif" Ddeddfau, ynghyd â'r is-ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig; a
- gwella'r ffordd y **cyfathrebir** ynghylch y gyfraith drwy sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chyhoeddi ar ei ffurf ddiweddaraf a bod deunydd esboniadol a sylwebaeth i gyd-fynd â hi.

Y canlyniadau a ddymunir drwy'r Bil Drafft yw:

- hwyluso'r broses o adnabod y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a'i gwneud yn fwy hygyrch; a
- darparu deddfwriaeth bwrpasol (addas at y diben), fodern a dwyieithog ar ddehongli'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru.

Datblygwyd y Bil Drafft yn rhannol fel ymateb i bryderon a fynegwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr (a nododd ddiffyg darpariaeth ddehongli Gymraeg yn yr adroddiad [Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru \(Mehefin 2016\)](#) a Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Pedwerydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a oedd yn gweld gwerth mewn datblygu Deddf Ddehongli ar wahân i Gymru fel ffordd o feithrin dealltwriaeth well o gyfraith Cymru, yn ei adroddiad [Deddfu yng Nghymru \(Hydref 2015\)](#)). Mae rhaglen ehangach Cwnsler Cyffredinol Cymru ar gyfer cydgrynhoi, codeiddio a chyhoeddi cyfraith Cymru yn well wedi llywio polisi'r Bil Drafft hefyd.

Yn 2017, cyhoeddodd y cyn Gwnsler Cyffredinol [ymgyngoriad 12 wythnos](#) yn gofyn am farn ar y cynigion ar gyfer dehongli cyfraith Cymru ac ystyried Deddf ddehongli i Gymru. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'r egwyddor o greu darpariaethau dehongli statudol dwyieithog, wedi'u teilwra'n benodol i Gymru. Defnyddiwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad fel sail ar gyfer datblygu'r polisi ar gyfer y darpariaethau dehongli statudol i Gymru.

Mae'r Bil Drafft yn cynnwys yr elfennau allweddol a ganlyn:

### Dyletswydd i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru

Mae'r Bil Drafft yn gosod dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol i adolygu cyfraith Cymru at ddibenion ceisio sicrhau ei bod yn hygyrch. Mae'r Bil Drafft hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i baratoi rhaglen yn egluro sut y maent yn bwriadu gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Rhaid i'r rhaglen honno wneud darpariaeth ar gyfer cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Gallai'r rhaglen hefyd gynnwys darpariaeth ar godi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o gyfraith Cymru a gweithio ar y cyd â Chomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.

## Rheolau dehongli

Mae'r Bil Drafft hefyd yn cynnwys rheolau dehongli. Ar hyn o bryd, mae Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i ddehongli'r holl ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, ond yn Saesneg yn unig y gwnaed y Ddeddf hon. Gan y bydd yn ddwyieithog, mae'r Bil Drafft yn mynd i'r afael â'r broblem hon yn rhannol. Fodd bynnag, bydd darpariaethau'r Bil Drafft (os caiff ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru "y Cynulliad Cenedlaethol") dim ond yn gymwys i ddeddfwriaeth a wnaed ar ôl iddo gael y Cydsyniad Brenhinol. Bydd Deddf Dehongli 1978 (sydd ar gael yn Saesneg yn unig) yn parhau'n gymwys, felly, i gyfraith Cymru a wnaed cyn i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol.

Mae'r Bil Drafft yn diweddarau rheolau dehongli statudol sy'n gymwys i gyfraith Cymru, gan deilwra'r rheolau arfaethedig at anghenion penodol yr awdurdodaeth, gan gynnwys mewn perthynas â'r Gymraeg. Er enghraifft, mae'r rheol ar wasanaethau wedi cael ei diweddarau er mwyn bod yn berthnasol i gyfathrebu electronig ac mae'r rheol sy'n ymwneud â chyfeirio at rywedd wedi cael ei hailystyried er mwyn bod yn briodol ar gyfer deddfwriaeth Gymraeg.

## **Beth yw'r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?**

Mewn perthynas â'r Gymraeg, y canlyniad dymunol yw y bydd y Bil Drafft (os a phan gaiff ei ddeddfu) o fudd i ddarllenwyr cyfraith Cymru fel a ganlyn:

- bydd yn arwain at fwy o gyfraith ddwyieithog a fydd yn disodli cyfraith Saesneg yn unig, sy'n aml yn hen ffasiwn, ac sy'n gymwys i Loegr neu i'r Deyrnas Unedig ("y DU") yn gyfan;
- yn gyffredinol, bydd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith y gyfraith drwy baratoi, datblygu a chyflenwi rhaglen o weithgareddau ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru; a
- bydd yn darparu deddfwriaeth ddwyieithog, wedi'i theilwra'n benodol, ar ddehongli cyfraith Cymru am y tro cyntaf.

Er mwyn sefydlu a yw'r canlyniadau dymunol yn llwyddiant, bydd y canlyniadau yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf a ganlyn –

- rhaid i'r manteision ragori ar gost y newid;
- rhaid i'r newidiadau fod o gymorth ar gyfer creu llyfr statud dwyieithog a chlir i Gymru; a
- rhaid i'r newidiadau leihau cymhlethdod.

## **Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?**

**a**

## **Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft (gweler tudalen ymgynghori Llywodraeth Cymru) yn nodi pob un o'r opsiynau polisi a'r gost a'r manteision cysylltiedig a ystyriwyd ar gyfer y ddau fater y cynigiwyd mynd i'r afael â hwy yn y Bil Drafft ac yn nodi beth fydd yr effeithiau os na roddir y polisi ar waith.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - [Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr](#)**

Ydy. Mae pob un o brif elfennau'r Bil Drafft yn dangos cysylltiad clir â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac mae'r rhain wedi'u nodi isod.

#### Dyletswydd i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru

Rhan o'r ddyletswydd i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yw annog mwy o gydgrynhoi yng nghyd-destun y gyfraith. Mae cyfran fawr o'r gyfraith sy'n gymwys i Gymru sydd o fewn cymhwysedd wedi'i ddatganoli wedi cael ei hetifeddu oddi wrth Senedd a Llywodraeth y DU. Mae hyn yn golygu bod y gyfraith yn cael ei gwneud yn Saesneg yn unig. Wrth gydgrynhoi'r gyfraith, mae'r cyfreithiau hyn yn cael eu hail-wneud yn ddwyieithog.

Mae arwyddocâd arbennig i hyn ar gyfer y sector cyfreithiol. Wrth i mwy a mwy o ddeddfwriaeth fod ar gael yn y Gymraeg, bydd yn dod yn haws i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, a chynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd Deddfau unigol wedi'u cydgrynhoi hefyd yn helpu i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y sector dan sylw.

#### Rheolau dehongli

Mae elfen dehongli statudol y Bil Drafft yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg drwy roi i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth Gymraeg Ddeddf dehongli y gallant gael mynediad ati drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bil Drafft yn unioni'r sefyllfa bresennol lle mae'n rhaid i'r rheini sy'n dymuno defnyddio fersiynau Cymraeg deddfwriaeth groesgyfeirio at fersiwn Saesneg y ddeddfwriaeth er mwyn iddynt allu cyfeirio at Ddeddf Dehongli 1978, a'i chymhwyso. Nid yw hyn yn iawn o ran egwyddor, ac yn ymarferol mae'n golygu ei bod hi'n anos i bobl ddefnyddio'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg.

Unwaith yn rhagor, bydd cael rheolau dehongli yn y Gymraeg yn helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector cyfreithiol. Gallai hyn arwain at fwy o ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle, a mwy o ddefnydd ohoni.

Fodd bynnag, o ystyried natur dechnegol y darpariaethau hyn, efallai na fyddant o gymorth o ran defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Mae'r Gymraeg yn mynd i fod ar ei hennill yn fwy cyffredinol, ac yn symbolaidd, hefyd oherwydd bydd deddfwriaeth allweddol sy'n mynd i'r afael â dehongli holl gyfraith Cymru (yn y dyfodol) yn cael ei gwneud yn awr (os caiff ei deddfu) yn y Gymraeg.

#### **Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Os caiff ei ddeddfu, bydd y Bil Drafft yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw un sy'n dymuno defnyddio fersiynau Cymraeg deddfwriaeth. Bwriad y Bil Drafft yw arwain at fwy o ddeddfwriaeth ddwyieithog a sylwebaeth ddwyieithog ar y ddeddfwriaeth honno, a bydd hefyd yn pennu rheolau dwyieithog ar gyfer dehongli'r ddeddfwriaeth.

Gan droi at ddarpariaethau penodol, mae'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaeth sy'n

darparu pan fo gair neu ymadrodd yn cael ei ddiffinio, bod unrhyw amrywiadau ar y term diffiniedig hwnnw i'w dehongli yn unol â'r ystyr hwnnw. Er bod y rheol yn gymwys i fersiynau Cymraeg a Saesneg deddfiadau, effaith y rheol yn y Gymraeg yw sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth bod i ffurfiau treigledig termau diffiniedig yr un ystyr â'r term diffiniedig, a bod modd rhannu diffiniadau cyfansawdd heb achosi amheuaeth ynglŷn â'u hystyr (yr un ystyr sydd i "ardal bwrdd diogelu" ac "ardal y bwrdd diogelu"). Mae hyn yn gadarnhaol gan ei fod yn cydnabod y gwahaniaethau cynnil sy'n codi wrth ddrafftio'n ddwyieithog.

Mae'r rheol sy'n gysylltiedig â rhywedd yn y Bil Drafft hefyd yn ei gwneud yn glir nad yw'r rheol yn gymwys i genedl enwau – rhywbeth a oedd yn annelwig yn Deddf Dehongli 1978. Unwaith yn rhagor, mae hwn yn gam cadarnhaol gan ei fod yn cydnabod y gwahaniaethau cynnil sydd i'w hystyried wrth ddrafftio'n ddwyieithog.

Gall y Bil Drafft gael effaith gadarnhaol yn fwy cyffredinol ar y Gymraeg hefyd oherwydd gallai annog trafodaeth ynglŷn â deddfwriaeth a chyfraith yn gyffredinol yn y Gymraeg, heb orfod defnyddio Deddf Saesneg, gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai cyfartal<sup>1</sup> na'r Saesneg.

Fodd bynnag, dim ond i ddeddfwriaeth a basiwyd ar y dyddiad y caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol (os caiff ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol), neu wedi hynny, y bydd y Bil Drafft yn gymwys. I'r perwyl hwn, ni fydd gan unrhyw un a fydd yn dymuno defnyddio fersiynau Cymraeg deddfwriaeth a basiwyd cyn y dyddiad hwnnw Ddeddf ddehongli ddwyieithog a fydd yn gymwys iddynt.

### **Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Mae elfen dehongli statudol y Bil Drafft yn dechnegol ei natur. Felly, grŵp cymharol fach o randdeiliaid yn unig sydd â buddiant uniongyrchol yn y ddeddfwriaeth arfaethedig, sy'n cynnwys:

- proffesiynau'r gyfraith ac eraill sy'n cynnig gwasanaethau cyfreithiol
- y farnwriaeth
- myfyrwyr ac academyddion y gyfraith.

Fodd bynnag, oherwydd bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithio ar bob cyfraith Cymru, bydd yn effeithio mewn gwirionedd ar unrhyw un sy'n dymuno cael mynediad at gyfraith Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheini sy'n defnyddio'r gyfraith yn y Gymraeg, neu sy'n dymuno ei darllen.

Cafwyd 17 o ymatebion ysgrifenedig i [ymgyngoriad Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd yn 2017](#). Cyflwynwyd ymatebion gan unigolion a sefydliadau sy'n cynrychioli gwahanol sectorau ar draws Cymru a'r DU. Yn gyffredinol, cefnogai'r ymatebwyr y cynnig yn yr ymgyngoriad i wneud darpariaeth ddwyieithog, wedi'i theilwra'n benodol, ynghylch dehongli deddfwriaeth Cymru gan gynnwys yn benodol Comisiynydd y Gymraeg a Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg.

Yn gyffredinol, teimlai'r ymatebwyr y byddai Deddf ar wahân i Gymru yn cael effaith cwbl gadarnhaol o ran helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Croesawodd amryw o

<sup>1</sup>Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 156 (1)

ymatebwyr y camau cadarnhaol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i osod y fframwaith ar gyfer cyfraith Cymru sy'n hygyrch, wedi'i drafftio'n dda ac yn ymarferol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ill dwy. Cefnogodd Comisiynydd y Gymraeg hefyd raglen hirdymor o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yng Nghymru. Yn yr un modd, ystyriodd rhai o'r ymatebwyr fod datblygu Deddf ar wahân i Gymru yn rhan annatod o raglen ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith ddwyieithog Cymru. Mae'r Bil Drafft wedi'i ddatblygu gan ystyried y safbwyntiau hyn.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch fanylion llawn at ddibenion cadw cofnod.**

(Gellid defnyddio hwn yn Nhribiwnlys y Gymraeg yn y dyfodol)

Amherthnasol

**Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestrï rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor?

Dim.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'r Bil Drafft, y ddogfen ymgynghori (gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft) a datganiadau ysgrifenedig wedi cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

Rhodddwyd/Rhoddir pob gwahoddiad i gyfarfod ac i ddigwyddiadau i randdeiliaid yn ddwyieithog a gofynnir am ofynion a dymuniadau o ran iaith.

**CAM 2: PENNU AC ASESU EFFEITHIAU**

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith**

**Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.**

**Effeithiau cadarnhaol:**

Bydd y Bil Drafft yn cael effaith gadarnhaol ar y rheini sydd am ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith cyfraith, er enghraifft gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth, academyddion a defnyddwyr llysoedd sydd am gynnal achosion llys drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Bil Drafft yn helpu i wella hygyrchedd, gan gynnwys cyhoeddi, y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae dull dehongli statudol dwyieithog i'w ddefnyddio ar gyfer dehongli deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ac sydd wedi'i theilwra ar gyfer cyd-destun Cymreig, gan adlewyrchu hefyd arferion drafftio presennol y Cynulliad Cenedlaethol, yn un elfen o hyn.

**Effeithiau negyddol:**

Ni fydd Deddf newydd ar wahân newydd i Gymru yn golygu na fydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys mwyach. Bydd dehongli'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan ddwy Ddeddf felly. Llywodraethir pa Ddeddf sy'n berthnasol

gan ddibynnu a yw'r gyfraith wedi'i datganoli a phryd caiff y ddeddfwriaeth ei gwneud. Mae hyn yn golygu na fydd y rheolau ar gyfer dehongli cyfreithiau dwyieithog a wnaed cyn i'r darpariaethau newydd ddod i rym ar gael yn ddwyieithog (fel ag y maent ar hyn o bryd). Cydnabyddir y gallai'r ffaith fod yna ddwy Ddeddf achosi penbleth ond mae hwn yn ganlyniad anorfod o fynd i'r afael â'r mater ar gyfer y dyfodol.

**Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. cynnydd o ran statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?**

Os caiff ei ddeddfu, mae'r Bil Drafft yn fwy tebygol o gael ei weld a'i ddefnyddio'n fwy eang gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth, academyddion a defnyddwyr llysoedd. Mae'r Bil Drafft yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith cyfraith yn y grwpiau allweddol hyn. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at well argaeledd gwasanaethau Cymraeg ac yn gwella mynediad i'r dinesydd at y system gyfreithiol yn y Gymraeg.

**Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:**

Tystiolaeth a ddefnyddiwyd:

- Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr, Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith yng Nghymru (Mehefin 2016);
- Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Pedwerydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfu yng Nghymru (Hydref 2015);
- Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Dehongli Deddfwriaeth Cymru , Ystyried Deddf dehongli i Gymru (Mehefin 2017);
- Adroddiad yr Arglwydd Brif Ustus 2016; a
- Adroddiad yr Arglwydd Brif Ustus 2017.

**Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith/asesiad risg?**

- Cadarnhaol:
- Negyddol:
- Niwtral:
- Anhysbys:

**Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad**

- |  |                                     |
|--|-------------------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol                         | <input checked="" type="checkbox"/> |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau   | <input type="checkbox"/>            |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru     | <input type="checkbox"/>            |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | <input type="checkbox"/>            |

**Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:**

**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a**



**chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

Amherthnasol

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Cafodd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r polisi cyn cynnal yr ymgynghoriad polisi yn 2017.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hwn ar ei newydd wedd wedi'i gyhoeddi ynghyd â'r papur ymgynghori ar y Bil Drafft. Bydd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Bil Drafft. Bydd y digwyddiadau yn rhoi gwybodaeth i randdeiliaid ar y cynigion ac yn gofyn am farn ar sut y gellid eu gwella.

Os caiff y Bil ei gyflwyno, bydd Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol sy'n craffu ar y Bil yn cyhoeddi cais am dystiolaeth (yn ysgrifenedig ac ar lafar) a bydd gan randdeiliaid gyfle pellach i rannu eu barn.

**CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO**

**Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Ystyriwyd pob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar bolisi a gynhaliwyd yn 2017 wrth ddatblygu darpariaethau'r Bil Drafft a'r papur ymgynghori cysylltiedig.

Roedd ymatebwyr yn gofidio bod Deddf Dehongli 1978, fel Deddf Senedd y DU, wedi'i deddfu yn Saesneg yn unig. Er bod y Ddeddf yn gymwys i Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y cyfryw Ddeddfau a Mesurau, nid oes unrhyw destun Cymraeg ar gyfer Deddf Dehongli 1978. Mae'r diffyg Deddf ddehongli ddwyieithog wedi'i nodi fel rhwystr ar gyfer y rheini sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg fel iaith y gyfraith.

Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid o'r farn y dylai'r Ddeddf sy'n llywodraethu'r modd y dehongli'r cyfraith Cymru fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dywedwyd hefyd y dylai'r Ddeddf honno ddarparu ar gyfer gwneud dehongliad statudol o dermau Cymraeg. Mae'r Bil Drafft yn mynd i'r afael â'r diffyg rheolau dehongli ddwyieithog sy'n gymwys i'r ystod eang o ddeddfwriaeth ddwyieithog sydd mewn grym ar hyn o bryd.

Yn benodol, mae Atodlen 1 i'r Bil Drafft yn mynd i'r afael â'r diffyg fersiwn Gymraeg gyfatebol o'r diffiniadau o eiriau ac ymadroddion a nodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf Dehongli 1978. Mae'r Bil Drafft yn cynnig deddfu darpariaethau ddwyieithog wedi'u diweddarau sy'n adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig (er enghraifft, cael gwared ar dermau sy'n amherthnasol). Bydd datblygu darpariaethau dehongli penodol i Gymru, yn hytrach na dim ond atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn y Gymraeg, yn golygu y byddai goblygiadau ehangach i ddeddfwriaeth Gymraeg pe byddai'r Bil Drafft yn cael ei deddfu. Bydd gwneud hyn yn golygu na fydd unrhyw rwystr sylweddol o ran hygyrchedd deddfwriaeth Cymru yn y Gymraeg, a bydd yn gwella ei hygyrchedd, heb angen croesgyfeirio at destun Saesneg yr un ddeddfwriaeth, a darllen Deddf Dehongli 1978. Mae'r papur ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r Bil Drafft yn

ymchwilio ymhellach i'r mater hwn.

Fel a nodwyd gan randdeiliaid, bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau statws cyfartal i'r testun Cymraeg a Saesneg yn unol â gofynion adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Bydd darpariaethau'r Bil Drafft yn helpu siaradwyr Cymraeg i fynd ar drywydd rhwymedïau cyfreithiol yn eu dewis iaith ac yn sicrhau nad yw pobl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg o dan anfantais.

Mae'r dull hwn yn un elfen o'r rôl ehangach y cynigir y dylai'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru ei chwarae i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

#### **Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

Bydd yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei hadolygu gydol yr ymgynghoriad ar y Bil Drafft. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i roi ystyriaeth bellach i'r effaith ar y Gymraeg ac yn mynd i'r afael ag anghenion siaradwyr Cymraeg. Bydd y polisi yn cael ei fireinio a'r cynigion deddfwriaethol yn cael eu datblygu gan gadw'r ymatebion hyn mewn cof.

#### **Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?**

Bydd yr effaith ar y Gymraeg yn ystyriaeth barhaus gydol yr ymgynghoriad ar y Bil Drafft ac wrth ddatblygu (a gweithredu os yn berthnasol) unrhyw gynigion deddfwriaethol.

#### **Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg**

Dim.

#### **4. Datganiad**

##### **Arweinydd polisi:**

**Mae'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw:

Claire Fife

Adran:

Swyddfa'r Prif Weinidog

Dyddiad(au):

Mawrth 2018

Llofnod:

Dyddiadau adolygu arfaethedig:  
Haf 2018 (yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Bil Drafft)

**ARDYSTIAD ac ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL**

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o ddatblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd Dylan Hughes  
(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Mawrth 2018